Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Hirael

**Orme Road**
**Bangor**
**Gwynedd**
**LL57 1BA**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Hirael

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Hirael |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 202 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 160 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 19 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 26.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 12.38% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 0.0% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 52.2% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 06/11/2023 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 15/06/2015 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 27/11/2023 |

Dechreuodd y pennaeth yn ei swydd ar 06/11/23. Fodd bynnag, er ei bod hi wedi bod yn ei swydd llai na mis, mae ymwybyddiaeth gadarn a thrwyadl iawn ganddi o'r ysgol ynglŷn â dysgu a lles y disgyblion, y cynllunio, yr addysgu a'r asesu, a'r systemau gofal a diogelu plant. Mae hyn oherwydd ei bod hi wedi gweithredu fel pennaeth cynorthwyol yn Ysgol Hirael er 2016 ac aelod o staff yn yr ysgol er 1992. O ganlyniad, mae ei gwybodaeth a'i dealltwriaeth o drefniadau arwain a rheoli, y prosesau hunanwerthuso a datblygiad proffesiynol y staff yn fanwl, yn gyfredol ac yn gadarn dros ben.

Daw'r data yma o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn yr arsylwyd yn ystod yr arolwg.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'angenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Hirael yn gymuned gynhwysol a chefnogol, sy'n hyrwyddo ethos gofalgar yn llwyddiannus. Mae perthnasoedd gwaith twymgalon yn bodoli rhwng disgyblion a staff, sy'n meithrin awyrgylch ofalgar ac ymdeimlad cadarn o ofal a lles ymhlith disgyblion.

Mae disgyblion yn mwynhau dysgu ac maent yn frwdfrydig yn ystod gwersi a thasgau. Maent yn awyddus i blesio'r staff, ac o ganlyniad, i lwyddo fel dysgwyr hyderus. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol, gwrando, darllen, rhifedd a digidol pwrpasol.

Mae athrawon yn cynllunio'r cwricwlwm yn bwrpasol sydd yn hyrwyddo cyfleoedd dysgu buddiol i ddisgyblion. Mae deilliannau disgyblion yn dda lle mae'r cynllunio, yr addysgu a'r adborth ar eu gwaith yn heriol a chyson. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu gweithgareddau i ddisgyblion ddatblygu medrau llafar Cymraeg, na'u medrau ysgrifennu estynedig yn y Gymraeg a'r Saesneg, yn ddigon cyson ac effeithiol. Yn ogystal, nid yw'r adborth i gefnogi disgyblion yng nghamau nesaf eu dysgu yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae staff yn cefnogi a gofalu am ddisgyblion yn gyson a chydwybodol. Mae hyn yn cyfrannu at awydd disgyblion i ddysgu a dyfalbarhau â thasgau. Mae staff yn annog disgyblion yn llwyddiannus i gymryd cyfrifoldeb am eu lles a'u hymddygiad eu hunain, ac i gofleidio'r perthnasoedd gwerthfawr sy'n bodoli yn yr ysgol. O ganlyniad, mae'r cymorth lles emosiynol i ddisgyblion a'u gallu i ddefnyddio'r gefnogaeth yn nodwedd gref o'r ysgol.

Mae staff yn defnyddio'r adeilad yn gynhyrchiol i ddiwallu anghenion disgyblion yn fwriadus, ac o'r herwydd, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau i hybu'r dysgu yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth o ran profiadau dysgu yn yr awyr agored mor effeithiol, yn enwedig i'r disgyblion ieuengaf. Mae arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad agos â chymuned ehangach yr ysgol ac yn adeiladu ar y berthynas gadarnhaol sy'n bodoli â rhieni.

Mae'r pennaeth yn arwain yr ysgol yn bwrpasol ac yn sicrhau bod gofal a lles disgyblion yn flaenoriaeth. Mae hyn yn ganolog i'w weledigaeth. Mae hi'n gweithio'n ddiwyd â'r staff a'r llywodraethwyr i sicrhau bod yr ysgol yn gymuned ddysgu gynhwysol, sy'n hyrwyddo cyfleoedd cadarnhaol i ddisgyblion.

Mae arweinwyr yn gwerthuso gwaith yr ysgol yn effeithiol gan ddefnyddio prosesau hunanwerthuso rheolaidd a thrylwyr. Mae gweithgareddau monitro'r ysgol yn arwain at gynlluniau gwella perthnasol, a chyfleoedd hyfforddi pwrpasol i staff ddatblygu eu medrau trwy ddysgu proffesiynol cytûn.

## Argymhellion

A1 Gwella safonau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws yr ysgol

A2 Gwella medrau Cymraeg disgyblion, yn enwedig eu medrau llafar

A3 Sicrhau bod ansawdd adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn effeithiol

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sylfaenol sy'n cyfateb i, neu'n is na, yr hyn a ddisgwylir ar gyfer eu cam datblygu a'u hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer, gan gynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. O ganlyniad, maent yn datblygu eu medrau'n dda ac yn dwysáu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando'n astud ar oedolion ac ar ei gilydd, gan ymateb yn bwrpasol i gyflwyniadau. Mae medrau llafar y disgyblion ieuengaf yn datblygu'n briodol. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn datblygu'r gallu i sgwrsio'n annibynnol, er enghraifft wrth greu dawnsfeydd ar lwyfan tra'n chwarae offerynnau taro. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn datblygu medrau llafar addas yn y Gymraeg ac mae'r lleiafrif yn ymfalchïo yn eu defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio Saesneg yn hyderus gyda geirfa a phatrymau iaith eang a pherthnasol. O ganlyniad, maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth gan fynegi eu barn yn glir ac aeddfed, tra'n siarad Saesneg.

Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o strategaethau ffonig i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau darllen yn foddhaol gan egluro'r cynnwys yn briodol. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn darllen yn hyderus mewn cyd-destunau amrywiol, yn enwedig yn Saesneg. Maent yn amrywio goslef eu llais ac yn defnyddio atalnodi yn ddeallus. Yn ogystal, maent yn datblygu eu huwch fedrau darllen yn bwrpasol i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau, er enghraifft wrth ymchwilio i daith Neil Armstrong i'r lleuad.

Ar y cyfan, mae medrau ysgrifennu cynnar llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu mewn ystod addas o gyd-destunau ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, fel creu cwestiynau am fywyd gweithwyr yng nghestyll y tywysogion. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu'n effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu cyfarwydd a pharagraffu. Maent yn addasu arddull a strwythur yn ôl gwahanol destunau yn dda, er enghraifft wrth ddisgrifio bywyd merch ifanc mewn gwersyll yn yr Almaen yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu estynedig disgyblion yn adeiladu'n systematig wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Yn nosbarthiadau y disgyblion ieuengaf, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Yn y dosbarth derbyn, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion afael dda ar ffeithiau rhif hyd at 10, ac erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn hyderus wrth gyfrifo rhifau hyd at 100. Yn ogystal, maent yn disgrifio nodweddion a phriodweddau siapiau tri-dimensiwn yn gywir wrth adeiladu modelau o ddreigiau, er enghraifft. Erbyn brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu gwybodaeth fathemategol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn llunio graffiau trosi yn hyderus wrth gymharu milltiroedd a chilomedrau, ac yn defnyddio data'n effeithlon i astudio poblogaethau mewn gwahanol wledydd. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth sicr o gysyniadau mathemategol, ac o'r herwydd, yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn fuddiol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau digidol effeithiol. Maent yn mewngofnodi'n hyderus ar lwyfannau digidol i gael mynediad i'w gwaith. Mae llawer o ddisgyblion Blwyddyn 1 yn rhaglennu robotau electronig yn hyderus i gyrraedd rhifau trwy ddilyn llwybrau penodol. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn gwneud defnydd da o feddalwedd priodol, er enghraifft wrth greu ffilm o ysgolion Fictoraidd. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn gwneud dewisiadau doeth ynglŷn â'r offer a'r meddalwedd mwyaf effeithiol i'w hystyried at wahanol ddibenion. Maent yn defnyddio ystod o raglenni cyflwyno gwybodaeth yn dda. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau codio yn dda wrth ddefnyddio graddau a mesuriadau i greu siapiau delweddau digidol tra'n mewnosod testun a graffeg i gyfleu cais i Gymru yng nghwpan rygbi'r byd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau artistig yn dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn creu celf mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau. Er enghraifft, o'r dosbarth meithrin i Flwyddyn 2, mae'r disgyblion yn cydweithio'n dda i gymysgu lliwiau wrth greu wynebau â phaent ac efelychu cylchoedd yr artist Kandinsky â chreonau. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar y cyfleoedd i ddatblygu eu creadigrwydd. Mae hyn yn cynnwys y disgyblion hynaf yn defnyddio tôn a chysgodion yn annibynnol i ymarfer lluniadau wrth gymharu clustiau ceffylau a chlustiau eu cyfoedion.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos balchder a pharch at eu hysgol. Maent yn teimlo'n ddiogel o fewn ethos cynhwysol a theuluol, sy'n elfen graidd o weledigaeth y pennaeth a'r staff. Maent yn gweithredu'r gwerthoedd, yr ymddiriedaeth a'r weledigaeth gytûn yn effeithiol, ac o ganlyniad, mae disgyblion yn gwybod at bwy i droi petai rhywbeth yn eu poeni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi bod

oedolion yn eu parchu, sy’n cyfrannu’n gadarn at ddatblygu perthynas waith agos sydd wedi’i seilio ar arwyddair yr ysgol, sef ‘Dysgwn fel teulu, tyfwn fel cymuned’.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrtais a pharchus wrth symud o gwmpas yr ysgol. Maent yn ymddwyn yn dda yn y dosbarthiadau heb anogaeth oedolion, ac maent yn ofalgar o’i gilydd. Yn ogystal, mae gan bron bob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw eu hunain ac eraill yn ddiogel ar-lein. Mae presenoldeb disgyblion yn dda, ac yn uwch na’r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymhyfrydu yn y ffaith bod oedolion yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn eu hystyried mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt. Mae bron bob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY, yn barod i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth a chyfrifoldebau, a chwarae rhan lawn ym mywyd a gwaith yr ysgol. Mae disgyblion sy’n aelodau o bwyllgorau amrywiol fel y cyngor ysgol, y ‘Sgwad Seren a Sbarc’ a’r ‘Dwds Digidol’ yn gwneud cyfraniadau effeithiol at fywyd dyddiol yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau’r ‘Dwds Digidol’ yn gweithio gyda’r disgyblion a’r cymorthyddion i’w hyfforddi i ddefnyddio apiau a llwyfannau digidol amrywiol. Yn ogystal, mae’r ‘Criw Clên’ yn gwobrwyo disgyblion sy’n defnyddio’r Gymraeg yn gyson ar fuarth yr ysgol.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn gwrando’n dda ar gyfarwyddiadau athrawon ac yn canolbwyntio’n gydwybodol ar eu gwaith mewn gwersi. Mae’r rhan fwyaf yn ddysgwyr brwdfrydig, sy’n ymroi i brofiadau newydd yn fodlon. Yn ogystal, maent yn cydweithio’n ddiwyd â’u ffrindiau ac oedolion, gan gynnig cymorth i’w gilydd o’u gwirfodd.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn canolbwyntio’n gyson am gyfnodau estynedig. Maent yn dangos parch at eu gwaith, a gwydnwch a chymhelliant yn yr hyn maent yn ei ddysgu. Maent yn cydweithio â’u cyfoedion mewn parau neu grwpiau i ddatrys problemau heb gefnogaeth oedolion, er enghraifft wrth iddynt ddefnyddio’r dull ‘tri cyn fi’ wrth feddwl am sut i wella eu gwaith. Mae llawer yn hyderus wrth drafod eu gwaith ac maent yn barod i wrando ar farn a syniadau eraill yn effeithiol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda fel unigolion iach a hyderus, ac yn deall sut i wneud dewisiadau cywir mewn perthynas â diet a gweithgareddau corfforol. Er enghraifft, ym Mlwyddyn 6, mae'r disgyblion yn cynllunio arbrofion effeithiol i fesur y gwahaniaeth yng nghuriadau eu calonnau ar ôl gwahanol fathau o ymarferion corfforol. Yn ogystal, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwerthfawrogi pwysigrwydd ymarfer corff rheolaidd a chyfleoedd i fwyta’n iach. Maent yn mwynhau cymryd rhan mewn gwersi ffitrwydd a gweithgareddau i ddatblygu eu medrau corfforol, fel sesiynau nofio a rygbi.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio ar gyfleoedd i gydweithio yng ngweithgareddau lles yr ysgol, fel y grŵp garddio a’r grŵp medrau bywyd. Yn ogystal, maent yn gwneud defnydd pwrpasol o'r ardaloedd lles a’r ystafell ymdawelu, ‘Y Nyth’, sy’n hyrwyddo eu lles emosiynol yn hynod effeithiol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf yn ymwybodol o sut i wneud penderfyniadau doeth i ofalu am eu lles.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth dda o bwysigrwydd dinasyddiaeth foesol trwy eu hymwybyddiaeth o’r gwerthoedd sy’n cael eu hyrwyddo

gan yr ysgol. Mae'r disgyblion hynaf yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd cydraddoldeb a chynhwysiant fel rhan o'u gwaith ar amrywiaeth a hawliau plant, er enghraifft. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dysgu am werthoedd i gefnogi eraill yn llwyddiannus ac maent yn awyddus i godi arian tuag at elusennau lleol a chenedlaethol. Mae hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth y disgyblion am bwysigrwydd eu cyfraniadau i greu cymdeithas ofalgar.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae athrawon yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau difyr, yn unol ag egwyddorion Cwricwlwm i Gymru, sy'n cefnogi llawer o ddisgyblion i wneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu gweithgareddau diddorol sy'n hyrwyddo diddordeb disgyblion am yr ardal leol wrth astudio cadeirlan Bangor, hanesion yr arfordir ac afonydd lleol.

Mae athrawon yn cymell disgyblion i gyfrannu eu barn am yr hyn yr hoffent ei ddysgu yn dda trwy goladu eu syniadau ar y cyd ar ddechrau themâu. Maent yn croesawu safbwyntiau disgyblion wrth gynllunio'n fedrus i wella eu medrau, gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn gwahanol gyd-destunau. Maent yn defnyddio'u hawgrymiadau yn effeithiol wrth baratoi gweithgareddau, er enghraifft wrth ddarparu gweithgareddau ysgogol am gestyll gogledd Cymru, mynyddoedd Eryri a hawliau dynol yn yr Unol Daleithiau. Trwy hyn, mae disgyblion yn awyddus i rannu eu profiadau ag eraill am yr ardal leol a thu hwnt.

Mae'r cwricwlwm yn rhoi ystyriaeth dda i amrywiaeth y byd a digwyddiadau byd-eang, fel rhyfeloedd a'u heffaith ddinistriol. Mae athrawon yn cynllunio profiadau dysgu sy'n adlewyrchu treftadaeth ddiwylliannol Cymru a Chymreictod yn llwyddiannus. Yn ogystal, mae'r holl staff yn hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg yn bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw staff bob tro'n cymell a chefnogi disgyblion i gyfathrebu ac ymateb yn y Gymraeg yn ddigon cyson.

Ar y cyfan, mae medrau addysgu staff yn gadarn. Yn y gwersi mwyaf effeithiol, mae athrawon yn herio disgyblion yn gyson i gyflawni hyd orau eu gallu. Lle mae'r disgwyliadau'n uchel, mae rhediad a bwrlwm y gweithgareddau yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn fwriadus ac yn eu hysgogi i ddyfalbarhau a llwyddo. Fodd bynnag, ar adegau, mae cyflwyniadau gweithgareddau yn rhy estynedig sy'n llesteirio brwdfrydedd ac awydd disgyblion i ymroi i'r gweithgareddau'n brydlon.

Mae'r berthynas waith rhwng staff a disgyblion yn llewyrchus. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn addasu gweithgareddau dysgu'n effeithiol i ymateb i anghenion disgyblion, gan gynnwys y nifer sydd angen cymorth â'u gwaith. Mae cymorthyddion yn darparu cefnogaeth dda i'r disgyblion hyn, gan wybod pryd i ymyrryd a phryd i ganiatáu iddynt gwblhau eu gwaith yn gynyddol annibynnol.

Caiff disgyblion ystod o brofiadau pwrpasol i ddatblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae athrawon y dosbarthiadau meithrin a derbyn yn darparu cyfleoedd da ar gyfer  disgyblion i ddilyn cyfarwyddiadau a defnyddio cynhwysion dilys i greu cacennau wrth y gegin fwd, er enghraifft. O ganlyniad, mae disgyblion yn dechrau trafod y gwahaniaeth mewn cyfeintiau blychau a phwysau nwyddau penodol yn effeithiol tra'n cydweithio'n frwdfrydig. Yn ogystal, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n addas, er enghraifft wrth

gyflwyno erthyglau papur newydd diddorol ar weledIadau o wrthrychau hedfan anhysbys. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth i ddatblygu medrau ysgrifennu ymestynnol disgyblion ar draws yr ysgol yn ddigon effeithiol. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth gymhwyso eu holl fedrau ysgrifennu ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau asesu a dulliau priodol wrth ymateb i waith disgyblion mewn gwersi. Yn yr arferion mwyaf effeithiol, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhannu adborth yn fedrus ar lafar i herio ac asesu ansawdd dysgu disgyblion, ac i dargedu unrhyw anghenion yn brydlon. Yn ogystal, mae staff yn holi disgyblion yn dda ac yn darparu cyfleoedd addas iddynt ymateb i adborth a sylwadau ysgrifenedig athrawon. Fodd bynnag, nid yw adborth athrawon yn targedu'r camau nesaf yn nysgu'r disgyblion yn ddigon pwrpasol i'w cefnogi i ddeall yn gwbl effeithiol sut i wella'u gwaith. Mae adroddiadau'r ysgol i rieni yn darparu gwybodaeth fanwl am gynnydd a chamau nesaf yn nysgu disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn darparu amgylchedd dysgu buddiol a diddorol lle defnyddir ardaloedd penodol yn bwrpasol i gefnogi dysgu disgyblion. Mae staff yn creu arddangosfeydd ac ardaloedd dysgu deniadol y tu mewn i'r adeilad i ysgogi a chynnig cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau am beth a sut i ddysgu. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gymhwyso'u medrau'n dda mewn sefyllfaoedd ymarferol, yn enwedig y tu mewn i'r adeilad. Mae staff yn defnyddio'r ardaloedd awyr agored sydd ar gael yn briodol. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn darparu profiadau dysgu ysgogol a rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn yr awyr agored, yn enwedig ar gyfer y disgyblion ieuengaf.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol, ac mae staff yn cymell disgyblion i gyfrannu at ei hethos cynnes a chyfeillgar yn llwyddiannus. Mae'r berthynas waith lewyrchus rhwng staff a disgyblion, ac ymhlith y disgyblion eu hunain, yn nodwedd gref o'r ysgol. Er enghraifft, mae gwaith diwyd y plant hynaf, trwy ddefnyddio holiaduron i ddarganfod dyheadau disgyblion, wedi arwain at feinciau cymunedol ar y buarth a chyfarpar chwarae.

Mae athrawon a chymorthyddion yn adnabod y disgyblion yn dda ac maent yn ymateb yn synhwyrol a phrydlon i'w hanghenion cymdeithasol ac emosiynol. Maent yn cyfrannu'n dda at strategaethau pwrpasol i reoli ymddygiad disgyblion. Mae hyn yn cynnwys y defnydd buddiol o grwpiau anogaeth, sy'n cefnogi unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn ddeallus. Mae dulliau cydweithredol yr ysgol yn cyfrannu'n dda at hapusrwydd ac awydd disgyblion i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r ysgol. Mae'r cymorth hwn yn helpu bron bob disgybl i ymgartrefu'n rhwydd ym mywyd yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd wedi'u nodi ag ADY yn gadarn. Mae'r cydlynydd ADY yn gweithio'n gydwybodol ag aelodau eraill o staff, partneriaid allanol ac ysgolion lleol, i sicrhau bod unigolion a grwpiau o ddisgyblion yn cael eu hadnabod, eu tracio a'u cefnogi'n dda o oedran cynnar. Mae adolygiadau cynnydd disgyblion yn golygu bod gan aelodau staff ddealltwriaeth glir o anghenion disgyblion. Mae staff yn rhyngweithio'n fuddiol ag ystod o wasanaethau i sicrhau adnoddau ychwanegol ac amserol er mwyn cynnig cymorth arbenigol i ddisgyblion ag ystod o anghenion dysgu, emosiynol a chymdeithasol. Mae'r trefniadau hyn, ynghyd â'r

cymorth penodol a geir yn ‘Y Nyth’, yn gryfder yn yr ysgol. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, sy’n elwa ar gymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â’u cam datblygu a’u mannau cychwyn.

Mae’r ysgol yn datblygu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau i wella eu profiadau. Mae staff yn annog pob disgybl i ymgymryd â rolau arweinyddiaeth yn effeithiol ar amrywiaeth o grwpiau etholedig. Mae’r ddarpariaeth hon yn ehangu eu dealltwriaeth o ddatblygu fel dinasyddion gweithredol a phwysigrwydd cyfraniadau unigolion i gefnogi a chynnal cymdeithas bwrpasol. Er enghraifft, mae aelodau’r cyngor ysgol yn trefnu diwrnodau codi arian i achosion lleol a chenedlaethol. Yn ogystal, mae’r cyngor eco yn gwerthuso arferion dyddiol yr ysgol yn feddylgar, fel arbed ynni ac ailgylchu.

Mae gan yr ysgol ystod fuddiol o gyfleoedd sy’n helpu disgyblion i ddatblygu dealltwriaeth dda o’u hetifeddiaeth Gymreig. Er enghraifft, mae’r ysgol yn hyrwyddo cynefin y disgyblion yn effeithiol, trwy astudio hanes Pier Bangor a bywyd faciwî yn ardal Sibols o’r ddinas. Mae’r ysgol yn hyrwyddo diwylliant Cymreig yn effeithiol, er enghraifft trwy gynnal eisteddfodau yn yr ysgol, dawnsio’r glocsen a dysgu am chwedlau Cymreig. Mae’r gweithgareddau hyn yn annog disgyblion i ymgysylltu’n frwdfrydig â diwylliant Cymru ac i deimlo’n falch o ethos cynhwysol yr ysgol o fewn ei chymuned Gymreig.

Mae staff yn rhoi pwyslais cryf ar ddarparu ystod amrywiol o deithiau ac ymweliadau sy’n cefnogi’r cwricwlwm ac yn ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn dysgu am fyd gwaith yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd iddynt astudio bywydau pobl sy’n eu helpu, fel swyddogion y gwasanaethau brys. Yn ogystal, mae’r disgyblion hynaf yn cynllunio i werthu cynnyrch fel myclysau a breichledau i gyfoethogi gwybodaeth disgyblion am golled ac elw.

Mae staff yn galluogi disgyblion i wneud cyfraniadau cryf i fywyd eu cymuned. Defnyddiant y profiadau yn gadarnhaol fel bod disgyblion yn datblygu parch ac yn deall bod gofalu am eraill yn bwysig. O ganlyniad, mae disgyblion yn dysgu bod gweithredoedd caredig yn gwneud gwahaniaeth i fywydau teuluoedd o fewn eu cymdogaeth a thu hwnt. Mae’r ysgol yn defnyddio sesiynau addoli ar y cyd yn llwyddiannus i hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion. Er enghraifft, mae disgyblion yn cefnogi banc bwyd lleol yn y gadeirlan trwy gasglu rhoddion yn eu dosbarthiadau yn ystod cyfnod y Nadolig. Mae’r gweithgareddau hyn yn cyfrannu’n dda at ddwysáu dealltwriaeth disgyblion bod cefnogi ei gilydd yn bwysig mewn cymdeithas ofalgar.

Mae prosesau’r ysgol ar gyfer monitro presenoldeb a phrydlondeb yn effeithlon. Mae staff yn cyfathrebu’n dda â’i gilydd ac asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion a’u teuluoedd i wella presenoldeb disgyblion. Mae staff yn deall eu rolau’n dda wrth gadw disgyblion yn ddiogel a chynnal ethos cynhwysol yr ysgol, fel mynd i'r afael ag unrhyw achosion o fwlio honedig yn dda. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu yn dda ac nid ydynt yn destun pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Ers ei phenodiad diweddar, mae'r pennaeth wedi adeiladu ar ei rôl fel cyn bennaeth cynorthwyol yr ysgol yn llwyddiannus. Mae hi'n gweithio'n ddiwyd gyda staff a llywodraethwyr i weithredu gwelliannau yn arferion strategol a dyddiol yr ysgol. Mewn amser byr, mae hi wedi ailystyried yn gywir y meysydd pwysig i'w gwella yn y ddarpariaeth trwy arferion monitro a gwerthuso cytûn.

Mae'r pennaeth yn canolbwyntio ar osod yr ysgol yng nghanol ei chymuned ac yn sicrhau mai gofal a lles disgyblion sydd wrth galon y weledigaeth hon. Mae llywodraethwyr a staff yn cefnogi ei hathroniaeth yn dda ac mae'r pennaeth yn annog staff i fodelu ymddygiadau a gwerthoedd cryf a chyson. Maent wedi'u seilio'n uniongyrchol ar ethos gofalgar, sy'n anelu at fod o fudd i gymuned yr ysgol a bywydau'r disgyblion. O ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau bod awyrgylch ofalgar a chefnogol yn treiddio trwy'r ysgol.

Mae arweinwyr yn dyrannu cyfrifoldebau yn synhwyrol ac mae'r pennaeth yn dwyn staff i gyfrif yn uniongyrchol am ansawdd ac effaith eu gwaith. Mae prosesau'r arweinwyr i werthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn drylwyr ac yn seiliedig ar ystod eang o dystiolaeth gadarn. Mae'r systemau bwriadus yn cynnwys craffu ar lyfrau disgyblion a dadansoddi cynnydd mewnol ac allanol ar gynnydd disgyblion. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â gwella medrau rhifedd disgyblion trwy weithgareddau ymarferol a bywyd go iawn. Yn ogystal, mae arweinwyr yn casglu safbwyntiau rhanddeiliaid eraill yn dda i lywio eu harferion. Er enghraifft, maent yn ystyried safbwyntiau rhieni ac yn gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau yn ddeallus, fel cyfathrebu'n well trwy gylchlythyrau rheolaidd a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.

Mae gwerthusiadau ac adolygiadau rheolaidd gan y pennaeth a'r corff llywodraethol yn creu darlun clir i arweinwyr o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Mae'r cyswllt rhwng y gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliannau yn gywrain. Mae arweinwyr yn defnyddio eu canfyddiadau'n effeithiol ac yn gosod targedau pwrpasol i symud yr ysgol ymlaen. Mae arweinwyr yn rhannu diwylliant diogelu'r ysgol gyda'r holl staff yn fanwl, sy'n cynnwys gwiriadau rheolaidd ar ddiogelwch safle'r ysgol.

Mae arweinwyr yn cadw mewn cysylltiad agos â chymuned ehangach yr ysgol. Maent yn adeiladu ar y perthnasoedd cryf sy'n bodoli â rhieni ac yn eu cefnogi'n empathetig. Mae hyn yn cynnwys mynychu cyfarfodydd gyda gweithwyr iechyd ac asiantaethau cymorth eraill. Mae llywodraethwyr yn sicrhau bod disgyblion yn bwyta'n iach ac yn yfed dŵr yn rheolaidd, ac yn cynghori rhieni ar bwysigrwydd bwyd maethlon yn eu bocsys cinio.

Mae arweinwyr a staff yn gwneud y defnydd gorau o'r rhan fwyaf o dir yr ysgol. Er enghraifft, mae disgyblion yn defnyddio'r cyfarpar anturus yn effeithiol i feistroli tasgau corfforol. Fodd bynnag, nid yw'r ddarpariaeth allanol ar gyfer y disgyblion ieuengaf yn gwbl bwrpasol. Mae hyn yn cyfyngu ar eu cyfleoedd i ddatblygu eu medrau trwy ystod ehangach o brofiadau dysgu.

Mae llywodraethwyr yn wybodus ac mae eu mewnbwn trylwyr yn creu gwelliannau systematig ar draws yr ysgol. Datblygant ddealltwriaeth uniongyrchol o weithgareddau'r ysgol trwy deithiau dysgu a thrafod gwaith disgyblion ochr yn ochr â'r

athrawon, er enghraifft. Maent yn gefnogol i'r pennaeth newydd ac yn gweithio gyda hi a'r staff yn bwrpasol gan gwestiynu effaith eu gwaith fel ffrindiau beirniadol. Ers ei phenodiad, mae'r pennaeth yn eu cynghori'n realistig ac yn onest ar sut i wella'r ddarpariaeth. Mae hyn yn cynnwys yr angen i herio disgyblion i wella'u medrau ysgrifennu estynedig a datblygu safon yr addysgu ymhellach.

Mae llywodraethwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn unol â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwelliant, fel buddsoddiadau mewn cyfarpar digidol ac adnoddau darllen. Mae arweinwyr yn defnyddio'r grant datblygu disgyblion yn ddoeth i ddarparu ymyriadau penodol ar draws yr ysgol gan staff, sy'n darparu cymorth buddiol i ddisgyblion wella'u dysgu.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod staff yn cael mynediad at gyfleoedd dysgu effeithiol. Mae'r cyfleoedd hyn yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol a chyfateb i'w hanghenion unigol. Mae'r rhain yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau gwella'r ysgol ac yn effeithio'n dda ar ddatblygu medrau disgyblion, fel eu lles emosiynol.

Mae'r ysgol yn rhannu arferion effeithiol ag ysgolion lleol, sy'n darparu cyfleoedd da i athrawon gymharu a rhannu eu profiadau â gweithwyr proffesiynol eraill. O ganlyniad, mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol yn cefnogi gallu'r ysgol i wella yn llwyddiannus.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:   01/02/2024